Ymddiriedolaeth Natur
**Gogledd Cymru**
**North Wales**
Wildlife Trust



# Llawlyfr Gwirfoddolwyr

Croeso i wirfoddoli gydag
Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

# Croeso i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru!

Diolch i chi am gynnig eich amser, eich egni a'ch sgiliau i'n helpu ni gyda'n gwaith, mae'n cael ei werthfawrogi'n fawr. Nawr eich bod chi wedi cofrestru fel gwirfoddolwr, byddwch yn rhan o rwydwaith o unigolion tebyg i chi sy'n helpu i wneud byd o wahaniaeth i fywyd gwyllt ar draws Gogledd Cymru.

Fel elusen leol, mae gwirfoddolwyr yn rhan hanfodol a gwerthfawr o'n tîm ni. Mae llawer o wahanol ffyrdd y gallwch chi helpu – ac nid yw pob un ohonynt yn yr awyr agored! Mae'r cyfleoedd yn cynnwys gwaith cadwraeth ymarferol yn ein gwarchodfeydd natur ni ac ar yr arfordir; cynnal arolygon o blanhigion ac anifeiliaid; helpu yn ein siopau ni ar y Gogarth ac ym Mharc Gwledig y Morglawdd; gwaith gweinyddol yn y swyddfa; ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf a chodi ymwybyddiaeth mewn digwyddiadau cymunedol. Beth bynnag fyddwch chi'n ddewis ei wneud, rydym yn gobeithio y byddwch chi'n mwynhau gwirfoddoli gyda ni ac yn teimlo'n rhan o'n tîm.

**Croeso a diolch i chi am eich cefnogaeth!**

# Am Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

**Ein gweledigaeth ni yw byd naturiol ffyniannus, gyda bywyd gwyllt a chynefinoedd naturiol yn chwarae rhan werthfawr wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd ac ecolegol, a phobl wedi'u hysbrydoli a'u grymuso i weithredu dros fyd natur.**

**Ein pwrpas ni yw dod â natur yn ôl, grymuso pobl i weithredu dros fyd natur, a chreu cymdeithas lle mae natur o bwys.**

**Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn un o 46 o Ymddiriedolaethau Natur sy'n gweithio ar draws y DU. Ochr yn ochr â'n haelodau a'n gwirfoddolwyr, rydym yn gweithio'n ddiflino i warchod bywyd gwyllt ar draws Gogledd Cymru.**

## Ein hanes

Cawsom ein sefydlu ym mis Hydref 1963, o ganlyniad i fygythiad i droi'r safle sydd bellach yn Warchodfa Natur Genedlaethol Cors Goch yn domen ddinesig. Ers hynny, rydym wedi tyfu'n raddol o fod yn elusen oedd yn cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr yn unig i un sy'n cyflogi mwy na 50 o staff. Rydym yn gwasanaethu ardaloedd Gogledd Cymru sy'n cael eu llywodraethu gan awdurdodau unedol Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam.

Gyda chefnogaeth amhrisiadwy gan wirfoddolwyr ac aelodau rydym yn rheoli 35 o warchodfeydd natur ar draws Gogledd Cymru. Mae'r safleoedd hyn yn gartref i amrywiaeth eang o gynefinoedd a bywyd gwyllt, gan gynnwys coetir hynafol, gweundir ucheldirol, rhostir, glaswelltir llawn rhywogaethau, lagŵnau arfordirol, twyni tywod a gwlybdir. Maent yn cael eu rheoli a'u gwella ar gyfer bywyd gwyllt, yn ogystal â bod yn ddiogel ac yn hygyrch i'r cyhoedd. Rydym hefyd yn gweithio gyda sefydliadau eraill a pherchnogion tir i ddiogelu a chysylltu safleoedd bywyd gwyllt ar draws Gogledd Cymru ac ysbrydoli cymunedau lleol a phobl ifanc i ofalu am eu bywyd gwyllt lleol.



## Sut rydym yn cael ein gweithredu

Mae grŵp o Ymddiriedolwyr etholedig yn goruchwylio llywodraethu ac arweinyddiaeth strategol y sefydliad. Maent yn gyfrifol am gymeradwyo ein cynlluniau strategol, y gyllideb flynyddol, yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Maent yn aelodau o'r Ymddiriedolaeth ac yn rhoi eu profiad a'u harbenigedd am ddim. Mae gwaith yr Ymddiriedolaeth o ddydd i ddydd yn cael ei wneud gan dîm o staff arbenigol, o dan reolaeth Prif Swyddog Gweithredol yr Ymddiriedolaeth. Cefnogir y staff gan lawer o wirfoddolwyr. Y Prif Swyddog Gweithredol a'r Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr sy'n bennaf gyfrifol am ein gwirfoddolwyr ni. Mae aelodau amrywiol o staff yn rheoli'r gwirfoddolwyr o ddydd i ddydd, fel sy'n briodol.

## Sut rydym yn cael ein cyllido

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn elusen ac, oherwydd hynny, rydym yn dibynnu ar gefnogaeth tanysgrifiadau aelodaeth, rhoddion, grantiau, cymynroddion a ffynonellau cyllido eraill i'n galluogi ni i gyflawni ein gwaith.

## Ein Dull o Weithredu

Rydym yn uchelgeisiol yn ein dyhead nid yn unig i arafu ond i wyrdroi'r dirywiad mewn byd natur. Rydym yn siarad â llais beiddgar a hyderus, i ddweud y gwir am gyflwr byd natur a'r hyn sydd angen ei wneud i'w roi mewn adferiad.

- Fel rhan o fudiad ar lawr gwlad, rydym wedi ein gwreiddio'n gadarn yn ein cymunedau lleol lle'r ydym yn gofalu am lefydd gwyllt, gan gynyddu dealltwriaeth pobl o'r byd naturiol, ar y tir ac yn y môr, a'u cysylltiad ag ef.

- Rydym yn ceisio sefydlu achos cyffredin a gweithio mewn partneriaeth ag eraill, i ddatblygu ffyrdd newydd, arloesol o wneud yr hyn sy'n iawn i fyd natur a sicrhau effaith i gefnogi ein gweledigaeth.

- Rydym yn arddangos yr hyn sy'n bosibl, ac yn ysbrydoli, yn grymuso ac yn galluogi pobl o bob cefndir, diwylliant, hunaniaeth a gallu i wireddu ein gweledigaeth gyda ni, gan gofleidio amrywiaeth ein cymdeithas i newid byd natur er gwell.

- Fel rhan o rwydwaith o Ymddiriedolaethau Natur, rydym yn gweithio i sicrhau bod ein gweithredoedd lleol yn cyfrannu at effaith gyfunol ac yn helpu i fynd i'r afael â materion byd-eang.

Ewch i'n gwefan ni
www.northwaleswildlifetrust.org.uk
i gael gwybod mwy am ein gwaith.



Cynhyrchwyd y llawlyfr hwn gan y Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr ac mae'n cynnwys y brif wybodaeth y bydd angen i chi ei gwybod am wirfoddoli gydag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Rhowch amser i ddarllen y llyfryn i sicrhau bod eich profiad gwirfoddoli yn ddiogel, yn werth chweil ac yn fuddiol.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, ymholiadau neu bryderon, mae croeso i chi gysylltu â'n **Swyddog Datblygu Gwirfoddolwy, Katy Haines,** a fydd yn fwy na pharod i helpu.

Rhif Ffôn: **01248 351541**
neu e-bost **katy.haines@northwaleswildlifetrust.org.uk**



# Beth yw gwirfoddoli?

**Mae Polisi Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru (2015) yn diffinio gwirfoddoli fel gweithgaredd sy'n:**

- **cael ei wneud am ddim, drwy ddewis**
- **cael ei wneud i fod o fudd i'r cyhoedd / gymuned**
- **cael ei wneud heb sicrhau unrhyw fudd ariannol**

## Beth mae gwirfoddolwyr yn ei wneud yn Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru?

Mae gennym ni rwydwaith ymroddedig o wirfoddolwyr ymrwymedig gydag ystod eang o sgiliau a diddordebau. Maent yn ymwneud â phob agwedd ar ein gwaith gan gynnwys gwaith cadwraeth ymarferol, gwirio pori gan dda byw yn ein gwarchodfeydd natur ni, gweithio gydag ysgolion a grwpiau cymunedol, helpu yn ein siopau yn Llandudno a Chaergybi, gwaith gweinyddol yn y swyddfa, gwarchod morloi ar hyd arfordir Gogledd Cymru, arolygu planhigion ac anifeiliaid yn ein gwarchodfeydd natur – mae'r rhestr yn ddiddiwedd! Mae'r math o waith mae'r gwirfoddolwyr yn dewis ei wneud yn dibynnu i raddau helaeth ar eu sgiliau a'u diddordebau eu hunain.

## Pam gwirfoddoli gyda ni?

Mae llawer o wahanol resymau pam mae pobl yn dewis gwirfoddoli. Yn ogystal â helpu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywyd gwyllt ar draws Gogledd Cymru, mae llawer o fanteision eraill. Mae gwirfoddoli yn rhoi cyfle i roi cynnig ar rywbeth gwahanol, dysgu sgiliau newydd a chwrdd â ffrindiau newydd sy'n debyg i chi. Mae hefyd yn ffordd wych o gadw'n heini ac yn iach. Os ydych chi'n chwilio am yrfa mewn cadwraeth bywyd gwyllt, gall gwirfoddoli roi hwb gwirioneddol i'ch CV chi a'ch helpu i ddod o hyd i'ch swydd berffaith!

## Pwy all wirfoddoli?

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn gweithio i gynnwys a grymuso pobl o bob oed, hunaniaeth, diwylliant, cefndir a gallu, gan eu cefnogi i werthfawrogi, mwynhau, siarad a gweithredu dros fywyd gwyllt. Daw ein gwirfoddolwyr o bob rhan o Ogledd Cymru ac o bob cefndir gwahanol, gan ddod ag amrywiaeth o sgiliau a phrofiad.

Rydym yn croesawu pobl ifanc i'n dyddiau gwirfoddoli, ond cofiwch, os ydych chi'n iau nag 16 oed, rhaid i chi fod yng nghwmni oedolyn cyfrifol. Os ydych chi rhwng 16 ac 17 oed, bydd angen i chi gael ffurflen ganiatâd rhiant / gwarcheidwad wedi'i llofnodi cyn y gallwch chi wirfoddoli ar eich pen eich hun.

## Oes raid i wirfoddolwyr fod yn aelodau?

Nac oes - does dim rhaid i chi fod yn aelod o'r Ymddiriedolaeth i wirfoddoli gyda ni. Mae manteision ychwanegol i fod yn aelod – rydych chi'n derbyn canllaw am ddim i'n gwarchodfeydd natur ni, tri rhifyn o gylchgrawn 'Gogledd Cymru Wyllt' y flwyddyn, e-gylchlythyr bywyd gwyllt rheolaidd a mynediad i fwy na 150 o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn. Mae'n costio cyn lleied â £3 y mis.

## Oes arnoch chi angen profiad blaenorol?

Nac oes. Rydym yn annog pobl ag amrywiaeth o sgiliau a phrofiadau i wirfoddoli gyda ni. Mae rhai tasgau'n gofyn am sgiliau penodol ond ar gyfer y rhan fwyaf o'n gwaith, bydd hyfforddiant a chymorth 'yn y swydd' anffurfiol yn cael eu darparu i sicrhau eich bod yn teimlo'n ddigon hapus a hyderus i ymgymryd â'ch rôl. Peidiwch â gadael i ddiffyg profiad eich atal chi rhag cymryd rhan.

## Beth ddylwn i ddod gyda mi?

Os ydych chi'n gwirfoddoli yn yr awyr agored bydd angen i chi wisgo dillad gwaith cynnes ac esgidiau cryf (fel esgidiau cerdded, esgidiau gwaith neu esgidiau glaw). Bydd angen i chi ddod â dillad dal dŵr a phecyn bwyd i ginio. Rydym yn darparu'r holl offer a menig gwaith.

# Swyddogaethau a chyfrifoldebau gwirfoddoli

**Bydd pob rôl wirfoddoli yn cynnwys gwahanol dasgau a gwahanol gyfrifoldebau. Bydd datganiadau cymhwysedd personol yn cael eu cwblhau ar gyfer gwirfoddolwyr allweddol, e.e. wardeniaid gwirfoddol neu wirfoddolwyr sy'n arwain gweithgorau cadwraeth.**

## Ein cyfrifoldebau ni i chi:

- Byddwn yn darparu croeso cyfeillgar.
- Byddwn yn darparu goruchwyliaeth a chefnogaeth ac mae gennym systemau clir ar waith. Byddwn yn trafod unrhyw anghenion neu geisiadau am gefnogaeth ychwanegol.
- Lle bynnag y bo modd, byddwn yn gwneud defnydd da o'ch sgiliau, eich gwybodaeth a'ch galluoedd i hybu ein nodau a'n hamcanion.
- Byddwn yn sicrhau eich bod mewn amgylchedd gwaith diogel a byddwn yn eich yswirio os bydd damwain nad yw'n fai arnoch chi.
- Byddwn yn darparu hyfforddiant perthnasol ar gyfer y tasgau rydym yn gofyn i chi eu cwblhau.
- Byddwn yn ymdrechu i sicrhau cyfle cyfartal.
- Byddwn yn ymdrechu i ddangos ein gwerthfawrogiad ac i gydnabod y cyfraniad sy'n cael ei wneud gan ein gwirfoddolwyr.
- Byddwn yn darparu gwybodaeth am sut mae'r sefydliad yn gweithio a sut mae eich rôl yn cyd-fynd ag amcanion ehangach Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.
- Byddwn yn gofyn am eich adborth a'ch barn am eich profiad gwirfoddoli.
- Byddwn yn mynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol yn unol â'n Polisi Bwlio ac Aflonyddu.
- Byddwn yn trin data gwirfoddolwyr yn unol â'r gyfraith.
- Byddwn yn cynllunio ac yn cyllidebu'n briodol ar gyfer gweithio gyda gwirfoddolwyr.
- Ni fydd gwirfoddolwyr yn cael eu defnyddio i gymryd lle a lleihau gwaith gweithwyr cyflogedig.

## Eich cyfrifoldebau chi i ni:

- Sicrhau eich bod yn parchu gwirfoddolwyr eraill, aelodau o staff, neu aelodau'r cyhoedd.
- Bod yn ymwybodol o'ch statws fel llysgennad yr Ymddiriedolaeth yn eich cymuned
- Cyflawni eich tasg(au) hyd eithaf eich gallu.
- Gweithio'n ddiogel eich hun bob amser a chofio eich cyfrifoldebau am ddiogelwch eraill.
- Cydymffurfio â pholisïau iechyd, diogelwch ac amgylcheddol Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, gweithdrefnau ac arferion gweithio diogel sy'n berthnasol i'ch rôl.
- Rhoi gwybod i'r Ymddiriedolaeth os nad ydych yn hyderus eich bod wedi derbyn arweiniad digonol i gyflawni eich rôl. Mynychu hyfforddiant perthnasol sy'n cael ei ddarparu gan yr Ymddiriedolaeth.
- Gwisgo offer gwarchodol personol sy'n cael ei ddarparu i'w ddefnyddio bob amser.
- Cymryd gofal da o'n hadnoddau a'n hoffer.
- Sicrhau nad oes unrhyw gamddefnydd anghyfreithlon neu droseddol o asedau'r Ymddiriedolaeth yn digwydd.
- Sicrhau nad ydych dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau anghyfreithlon wrth wneud gwaith ar ran yr Ymddiriedolaeth.
- Rhoi gwybod i'ch goruchwylydd am unrhyw ddamweiniau a damweiniau a fu bron â digwydd ar ddiwrnod y digwyddiad neu cyn gynted â phosibl.
- Parchu cyfrinachedd gwybodaeth y byddwch yn dod yn ymwybodol ohoni wrth wirfoddoli i'r Ymddiriedolaeth.
- Mwynhau eich hun!

# Dechrau arni

## Cofrestru a chyflwyniad

Gofynnir i bob un o'n gwirfoddolwyr ni gofrestru gyda ni drwy lenwi Ffurflen Cofrestru Gwirfoddolwyr ar-lein (neu bapur). Mae hon ar gael ar ein gwefan ni www.northwaleswildlifetrust.org.uk. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu gan y Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr a bydd eich manylion yn cael eu cadw dan reolaeth fanwl yn ein cronfa ddata. Mae'r wybodaeth yma'n ein galluogi ni i gysylltu â chi a chefnogi eich gwirfoddoli. Gyda'ch caniatâd chi, byddwch yn derbyn e-bost gennym ar ddiwedd pob mis, yn tynnu sylw at gyfleoedd gwirfoddoli sydd i ddod. Os na fyddwch yn derbyn y wybodaeth hon, edrychwch yn eich ffolder post jync! Mae posib dod o hyd i wybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli sydd i ddod ar ein gwefan ni hefyd.

Mae manylion ein gwirfoddolwyr ni'n cael eu trin yn gyfrinachol ac yn cael eu defnyddio at ddiben rheoli gwirfoddolwyr yn Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn unig. Mae'r wybodaeth ar gael i staff priodol yr Ymddiriedolaeth neu wirfoddolwyr hyfforddedig yn unig. Ni fydd eich manylion yn cael eu trosglwyddo i unrhyw drydydd parti.

Mae'r hyfforddiant sefydlu'n amrywio'n sylweddol, yn dibynnu ar y rôl sy'n cael ei chyflawni, ond mae'n cynnwys dod yn gyfarwydd â'ch maes gwaith a'r staff a'r gwirfoddolwyr allweddol y byddwch yn gweithio gyda nhw. Mae hefyd yn ymdrin â nifer o bolisïau a gweithdrefnau Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a fydd yn berthnasol i'ch rôl, e.e. iechyd a diogelwch. Byddwch hefyd yn cael gwybodaeth am hawlio treuliau a chyfleoedd dysgu.

## Goruchwyliaeth a chefnogaeth

Dylai pob gwirfoddolwr gael y cyfle i ofyn cwestiynau, codi pryderon a thrafod y gwaith rydych yn ymwneud ag ef. Ar gyfer gwirfoddolwyr cadwraeth ymarferol, efallai mai dim ond trafodaeth agored dros baned fydd yn ofynnol. Ar gyfer Wardeniaid Gwirfoddol neu wirfoddolwyr allweddol, efallai y bydd angen galwad ffôn neu



gyfarfod gyda'r aelod perthnasol o staff. Bydd swyddogaethau eraill, fel hyfforddeion neu interniaid, yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'u cyswllt o blith y staff.

## Creu argraff dda

Ble bynnag fyddwch chi'n dewis gwirfoddoli, byddwch yn cynrychioli Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, ac mae'n bwysig creu argraff dda ar y cyhoedd. Gofynnwn i wirfoddolwyr ymddwyn yn barchus tuag at ei gilydd a thuag at aelodau o staff a'r cyhoedd.

Wrth i chi gymryd mwy o ran efallai y byddwch yn teimlo'n ddigon hyderus i allu sgwrsio â phobl am yr Ymddiriedolaeth a'r gwaith rydym yn ei wneud. Gallwch gyfeirio'r cyhoedd bob amser at aelod o staff neu berson priodol arall os ydynt yn holi am faterion anodd neu sensitif. Dylid cyfeirio ymholiadau gan y cyfryngau at aelod o staff bob amser.

Dim ond os yw wedi cael ei awdurdodi gan eich cyswllt o blith y staff y gall gwirfoddolwr gynrychioli'r Ymddiriedolaeth yn ffurfiol i sefydliadau eraill neu'r cyfryngau. Efallai y bydd angen cymeradwyaeth ein tîm cyfathrebu ar gyfer hyn a chaiff ei lywodraethu gan weithdrefnau a chanllawiau pellach. Os ydych chi'n meddwl bod hyn yn effeithio arnoch chi, siaradwch â'ch cyswllt o blith y staff.

## Treuliau a thaflenni amser

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i'r egwyddor o ad-dalu treuliau cymeradwy ar gyfer gwirfoddolwyr ac mae'n cefnogi'r farn na ddylai unrhyw wirfoddolwr fod ar ei golled o ganlyniad i wirfoddoli ar ran ein mudiad ni. Fodd bynnag, rhaid i'r holl dreuliau gael eu cymeradwyo ymlaen llaw gyda'ch cyswllt o blith y staff neu'r Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr, gan mai arian cyfyngedig sydd gan yr Ymddiriedolaeth. Mae hyn yn golygu, yn gyffredinol, y byddem yn gobeithio y gallwch chi gyrraedd eich lleoliad gwirfoddoli ar eich cost eich hun neu, os yw ar gael, cael lifft yng ngherbyd yr Ymddiriedolaeth. Os gofynnir i chi wneud tasgau penodol, neu brynu pethau ar ran yr Ymddiriedolaeth, bydd y costau'n cael eu talu ar ôl cyflwyno ffurflen hawlio fisol, ynghyd â derbynebau gwreiddiol cyfatebol. Trafodwch hyn gyda'ch cyswllt o blith y staff neu'r Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr a bydd yn esbonio'r broses yn fanylach.

Er mwyn gwerthfawrogi rôl ein gwirfoddolwyr anhygoel ni yn llawn, rydym yn cadw cofnod o amser pawb. Defnyddir y wybodaeth hon mewn ceisiadau grant a gyflwynir i gyllido prosiectau newydd ac i helpu i ddangos tystiolaeth o'r gwaith rydym wedi'i gyflawni. Mae'r wybodaeth hon hefyd yn ddefnyddiol i chi os ydych yn gwneud cais am swyddi ac yn dymuno defnyddio'r Ymddiriedolaeth fel un o'ch canolwyr.

Mae dwy ffordd o gasglu'r wybodaeth hon. Os ydych yn gweithio fel rhan o grŵp, e.e. gweithgor cadwraeth, bydd goruchwylydd eich grŵp yn nodi'r oriau y mae pawb wedi eu gweithio ar daflen amser ar ddiwedd y diwrnod gwaith ac felly nid oes angen i chi wneud unrhyw beth. Os ydych chi'n gweithio'n fwy annibynnol, byddwn yn rhoi taflen amser i chi y bydd angen i chi ei llenwi bob tro y byddwch yn gwirfoddoli. Ar ddiwedd pob mis, gofynnwn i chi anfon eich taflen amser wedi'i chwblhau at eich cyswllt o blith y staff neu'r Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr i'w phrosesu. Os ydych chi'n ansicr ynghylch a yw eich amser yn cael ei gofnodi, gofynnwch i'ch goruchwylydd neu'r Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr.

## Delio ag anawsterau

Nod Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yw gwneud pob profiad gwirfoddoli yn gadarnhaol ac yn bleserus a thrin pob gwirfoddolwr yn deg, yn wrthrychol ac yn gyson. Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli y gall sefyllfaoedd anodd godi o bryd i'w gilydd. Er bod delio â materion a chwynion yn gallu bod yn anodd, gall fod yn gyfle cadarnhaol i wella'r ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud a darparu gwell gwasanaeth. Fel cam cyntaf dylech siarad â'ch aelod o'r staff goruchwylio er mwyn mynd i'r afael â'r broblem yn unol â hynny. Bydd ymddygiad sy'n achosi perygl uniongyrchol i eraill, e.e. arferion gwaith peryglus, yn cael eu trin yn gyflym gan y rhai sy'n goruchwylio ar y diwrnod.

Os bydd hyn yn aflwyddiannus neu os ydych chi'n teimlo bod y mater yn fwy difrifol, dylech drosglwyddo'r wybodaeth i'r Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr cyn gynted â phosibl. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i ddod o hyd i ateb i'r broblem.

## Hyfforddiant a datblygiad personol

Bydd swm a natur yr hyfforddiant a gynigir i wirfoddolwyr yn amrywio yn ôl y swyddogaethau sy'n cael eu cyflawni ac unrhyw brofiad a lefelau sgiliau presennol.

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn ymdrechu i ddarparu hyfforddiant priodol lle bo angen, gan alluogi gwirfoddolwyr i deimlo'n hyderus a chymwys wrth gyflawni tasgau.

Ar gyfer y rhan fwyaf o swyddogaethau byddwch yn derbyn hyfforddiant 'yn y swydd' perthnasol gan eich cyswllt staff neu wirfoddolwyr. Yn aml bydd rhywun yn parhau i fod wrth law i roi cefnogaeth, cyngor a help pellach i chi. Os nad ydych chi'n siŵr beth rydych yn ei wneud, cofiwch ofyn. Ar gyfer rhai swyddogaethau efallai y bydd angen hyfforddiant ffurfiol a dylid trafod hyn yn ystod eich cyfnod sefydlu.

## Cadw mewn Cysylltiad

Mae eich adborth yn bwysig i ni. Gydag unrhyw rôl, mae'n bwysig bod cyfathrebu dwy ffordd yn digwydd yn aml ac yn gyson. Ar unrhyw adeg, gallwch gysylltu â'r Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr gyda'ch barn fel ein bod yn gallu gwneud gwelliannau i'n ffordd o weithio. Bydd hyn yn helpu i gael gwared ar unrhyw gamddealltwriaeth neu faterion a allai achosi pryder ac yn eich galluogi i ddod o hyd i atebion ar gyfer unrhyw broblemau y byddwch yn dod ar eu traws wrth wirfoddoli gyda ni. Peidiwch ag anghofio dweud wrthym pan fydd pethau'n mynd yn iawn hefyd! Rydyn ni bob amser yn chwilio am straeon cadarnhaol gan wirfoddolwyr ar gyfer ein cylchgrawn, y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol.

Helpwch ni i gadw eich gwybodaeth bersonol yn gyfredol drwy roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'ch cyfeiriad, eich rhif ffôn a'ch cyfeiriad e-bost, rhag ofn y bydd angen cyswllt brys neu gyflyrau meddygol.

Os byddwch yn penderfynu rhoi'r gorau i wirfoddoli, dywedwch wrth y Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr. Byddai o gymorth i ni pe baech hefyd yn dweud wrthym pam eich bod yn gadael.

## Hyfforddai Cadwraeth Gwirfoddol / lleoliad gwaith

Bob blwyddyn rydym yn anelu at gynnal o leiaf 2 leoliad gwaith. Mae'r rhain fel rheol yn gyfleoedd gwirfoddoli 12 mis i fyfyrwyr. Mae'r swyddi hyn yn rhoi cyfle gwych i dreulio blwyddyn yn gweithio ochr yn ochr â'n staff a'n gwirfoddolwyr ni, gan ddatblygu sgiliau newydd a fydd yn eich helpu i gymryd eich cam cyntaf i yrfa ym maes cadwraeth. Cysylltwch â'r Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr am ragor o wybodaeth.



## Diogelwch a Pholisïau

Fel pob sefydliad, mae gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru nifer o bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau ein bod yn gweithio'n ddiogel, yn effeithiol, yn deg ac yn gyson.

Yn y rhan fwyaf o achosion byddwch yn cael eich cyflwyno i bolisïau pan fyddant yn effeithio arnoch chi. Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau ar gael o swyddfeydd yr Ymddiriedolaeth. Mae rhai yn ddigon pwysig i gael eu crynhoi'n gryno isod, ond mae'r dogfennau llawn bob amser yn cael blaenoriaeth ac maent ar gael ar gais.



## Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae ein strategaeth yn rhoi amrywiaeth o bobl yn ganolog i'n cenhadaeth, a hyderwn fod staff a gwirfoddolwyr yn deall ac yn gwerthfawrogi gwerth cynhenid cynnwys trawstoriad ehangach o gymdeithas yn ein gwaith. Mae problemau cymdeithas yn gofyn am feddwl yn arloesol, a dim ond drwy ddod â phobl o wahanol gefndiroedd, credoau, profiadau, syniadau ac agweddau at ei gilydd fydd hyn yn cael ei sicrhau. Mae ymrwymiad cadarn i ddarparu cyfle cyfartal, mynd i'r afael â gwahaniaethu, aflonyddu, casineb ac anfantais ac i feithrin cysylltiadau da. Mae copi o'n polisi Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gael ar gais gan y Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr.

## Iechyd a Diogelwch

Mae gwirfoddolwyr yn dod o dan Bolisi Iechyd a Diogelwch Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, a rhaid iddynt gadw ato, a cheir crynodeb ohono isod. Gellir darparu'r ddogfen lawn am ragor o wybodaeth os gofynnir amdani.

1. Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn ymwybodol o'i dyletswydd fel cyflogwr o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, a bydd yn cydymffurfio â hi, i sicrhau, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, iechyd, diogelwch a lles yn y gwaith ei holl gyflogeion, sy'n cynnwys pob gwirfoddolwr sy'n gweithio i'r Ymddiriedolaeth.
2. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o'i chyfrifoldeb i sicrhau iechyd a diogelwch ymwelwyr ac eraill sy'n cael eu heffeithio neu a allai gael eu heffeithio gan waith yr Ymddiriedolaeth, a bydd yn cydymffurfio ag ef.
3. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i gynnal a gwella ei safonau perfformiad ym meysydd iechyd a diogelwch.
4. Y Prif Swyddog Gweithredol sy'n bennaf gyfrifol am y Polisi Iechyd a Diogelwch.
5. Mae'n ofynnol i'r holl staff a gwirfoddolwyr weithio'n ddiogel bob amser.
6. Bydd y Polisi Iechyd a Diogelwch yn cael ei adolygu unwaith y flwyddyn o leiaf i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol ac yn berthnasol i waith yr Ymddiriedolaeth.

Mae natur ein gwaith yn golygu y gallwn wneud gwaith a allai fod yn beryglus, felly rydym yn defnyddio proses asesu risg ar gyfer nodi peryglon a rheoli risg. Ar gyfer pob tasg bydd asesiad risg wedi ei gynnal gan y trefnydd (staff neu wirfoddolwr).





Bydd risgiau sy'n benodol i'ch rôl wirfoddoli yn cael eu trafod gyda chi naill ai fel rhan o'ch cyfnod sefydlu, wrth gyflawni tasg neu mewn sesiwn briffio grŵp. Os byddwch yn sylwi ar unrhyw beth a allai fod yn beryglus yn eich barn chi, neu os ydych yn rhan o ddamwain neu'n gweld damwain, neu ddamwain a fu bron â digwydd, rhaid i chi roi gwybod am hynny i'r aelod o staff rydych yn gweithio ag ef.

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn darparu offer a PPE fel y bo'n briodol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod yr offer yn addas ar gyfer y defnydd a fwriedir, yn ddiogel i'w ddefnyddio, yn cael ei gynnal a'i gadw mewn cyflwr diogel a, lle bo angen, yn cael ei archwilio i sicrhau bod hyn yn parhau i fod yn wir. Ar gyfer tasgau cadwraeth ymarferol, rhaid i wirfoddolwyr hefyd gael 'sgwrs offer' a goruchwyliaeth ddilynol i sicrhau bod yr offer yn cael ei ddefnyddio'n gywir ac yn ddiogel. Dim ond offer a chyfarpar wedi eu rhoi a'u cymeradwyo gan yr Ymddiriedolaeth y gellir eu defnyddio. Ni chaiff neb ddefnyddio na gweithredu unrhyw gelfi, offer, peiriannau neu gerbydau oni bai eu bod wedi'u hyfforddi a'u hawdurdodi i wneud hynny – bydd angen tystysgrifau hyfforddi. Ni chaiff neb ddefnyddio unrhyw declyn, offer, peiriannau na cherbyd dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau.

## Eich Iechyd

Unwaith y byddwch yn dechrau gwirfoddoli gyda'r Ymddiriedolaeth, rhaid i chi lenwi ffurflen 'Mewn Argyfwng'. Mae hon yn rhoi manylion y person y gallwn gysylltu ag ef os bydd argyfwng, yn ogystal â manylion unrhyw gyflyrau meddygol a allai effeithio arnoch chi tra byddwch yn gwirfoddoli. Gofynnwn i chi roi gwybodaeth gyson i ni wrth wirfoddoli, gan ganiatáu i ni gael y wybodaeth ddiweddaraf os bydd salwch neu ddamwain.



## Gweithio ar eich pen eich hun

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i iechyd, diogelwch a lles ein gwirfoddolwyr a all fod ar eu pen eu hunain wrth ymgymryd â gweithgareddau ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Lle bynnag y bo hynny'n ymarferol, bydd gweithio ar eich pen eich hun yn cael ei osgoi. Ni fydd yn cael ei ganiatáu lle mae asesiadau risg safle neu weithgaredd wedi nodi risg sy'n gysylltiedig â pheryglon fel ynysu, dŵr, uchder, defnyddio offer pŵer, neu fannau cyfyng, neu lle nad yw cymwyseddau wedi cael eu cofnodi. Ni ddylai unrhyw wirfoddolwr weithio ar ei ben ei hun heb ganiatâd ymlaen llaw gan ei oruchwylydd. Os nad oes modd osgoi gweithio ar eich pen eich hun, rhaid cadw at ofynion y cytunwyd arnynt. Mae'n hanfodol bod gennych gopi o'n proses Gweithio Ar Eich Pen Eich Hun cyn dechrau unrhyw waith ar eich pen eich hun. Rhaid cadw at y canllawiau a nodir yn y ddogfen hon.

## Yswiriant

Mae gwirfoddolwyr wedi'u cynnwys o dan bolisi yswiriant yr Ymddiriedolaeth wrth wneud gwaith gwirfoddol awdurdodedig i ni, ar yr amod eu bod yn cadw at ein polisïau a'n gweithdrefnau ac unrhyw gyfarwyddiadau neu ganllawiau rydym wedi eu rhoi.

Os ydych chi'n gwirfoddoli mewn gweithgaredd i'r Ymddiriedolaeth sy'n cynnwys defnyddio eich car eich hun, e.e. gyrru gwirfoddolwyr i warchodfa natur, rhaid i chi hysbysu eich yswirwyr gan y bydd angen dosbarth busnes arnoch ar eich yswiriant car eich hun. Nid yw eich car wedi'i yswirio o dan yswiriant yr Ymddiriedolaeth. Cyn i chi allu gyrru cerbyd sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth, rhaid i Weinyddydd yr Ymddiriedolaeth gael copi o'ch trwydded yrru.

## Rhoi gwybod am ddamweiniau

Rhaid rhoi gwybod i'ch cyswllt staff neu wirfoddolwyr am bob damwain, dim ots pa mor fach ydyw. Bydd yn cofnodi ac yn cyflwyno manylion y ddamwain ar ein system cofnodi damweiniau ar-lein. Mae hyn hefyd yn berthnasol i unrhyw ddamweiniau a fu bron â digwydd a digwyddiadau peryglus lle'r oedd y potensial ar gyfer niwed yn amlwg

## Rheoli gwybodaeth

Fel gwirfoddolwr efallai y byddwch yn trin neu'n dod yn ymwybodol o wybodaeth sydd o natur gyfrinachol. Gall hyn ymwneud â rhywogaethau a warchodir, prosiectau newydd, a gwybodaeth ariannol neu bersonol. Disgwyliwn i chi barchu'r cyfrinachedd yma a gwirio gyda ni os ydych yn ansicr ynghylch statws unrhyw wybodaeth rydych yn dod ar ei thraws.

## Diogelu Data a Hysbysiad Preifatrwydd

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru wedi ymrwymo i arfer da wrth drin a rheoli data personol a chydymffurfio'n ofalus â gofynion Deddf Diogelu Data 2018, i ddiogelu pobl rhag niwed.

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru hefyd yn sicrhau ei bod yn ystyried pryderon dilys unigolion am y ffyrdd y gellir defnyddio eu data. Nod Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yw bod yn agored ac yn dryloyw yn y ffordd y mae'n defnyddio data personol a, lle bo hynny'n berthnasol, rhoi dewis i unigolion o ran pa ddata a gedwir a sut cânt eu defnyddio. Rydym wedi ymrwymo i gadw manylion personol ein haelodau a'n gwirfoddolwyr yn ddiogel. Mae copïau o'n Polisi Diogelu Data a'n Hysbysiad Preifatrwydd ar gael ar gais.



## Ymrwymiad Diogelu'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Mae sicrhau bod pawb sy'n ymweld â'n safleoedd ni ac yn ymgysylltu â'n sefydliad yn cael profiad pleserus a diogel yn flaenoriaeth lwyr i'r Ymddiriedolaethau Natur. Mae hyn yn cynnwys ein hymwelwyr, aelodau, gwirfoddolwyr, staff ac ymddiriedolwyr.

Rydym yn cydnabod y gall fod angen help a chefnogaeth ychwanegol ar rai pobl, gan gynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg; fel mudiad rydym wedi ymrwymo i'n cyfrifoldebau diogelu yn ogystal â sicrhau bod diogelwch a lles wrth galon ein hymwneud â phawb. Rydym eisiau ysbrydoli ac annog pawb i dreulio amser yn yr awyr agored, datblygu cysylltiad â byd natur a chwarae eu rhan yn adferiad byd natur yn ein cymunedau lleol.

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cymryd pob cam rhesymol i ddiogelu pawb sy'n ymweld â'n safleoedd ni, yn cymryd rhan yn ein gweithgareddau neu'n ymgysylltu â ni ar-lein.
- Rhoi blaenoriaeth gyfartal i gadw pawb yn ddiogel rhag niwed, dim ots beth yw eu hoedran, anabledd, rhywedd, hil, credoau, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.
- Rhoi'r wybodaeth a'r adnoddau i'n staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr i'w harwain wrth amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg rhag cam-drin ac esgeulustod.
- Peidio â goddef unrhyw fath o gam-drin neu esgeulustod o fewn yr Ymddiriedolaethau Natur.

Mae ein Polisi Diogelu ar gael ar gais gan y Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr.

# Yn Olaf... Diolch!

Cofiwch fod Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru wir yn gwerthfawrogi eich holl oriau gwirfoddoli, pryd bynnag a ble bynnag rydych chi'n eu rhoi. Mae cryfder yr Ymddiriedolaeth yn cael ei adeiladu ar y bartneriaeth rhwng gwirfoddolwyr a staff, yn cydweithio dros ein hachos cyffredin.

**Diolch i chi am ddewis gwirfoddoli gydag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.**






Ymddiriedolaeth Natur
**Gogledd Cymru**
**North Wales**
Wildlife Trust

Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor, Gwynedd LL57 2RT
01248 351541
Rhif Elusen Gofrestredig 230772
www.northwaleswildlifetrust.org.uk
info@northwaleswildlifetrust.org.uk

Dyddiad cyhoeddi Ebrill 2025